

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	4 Mehefin 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	19 Mehefin 2019

---

**PWNC**

Eitem 6:YSGOL LLANAELHAEARN

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd rhoi caniatâd 'r Adran Addysg i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol. Mae swyddogion o'r Adran Addysg eisoes wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda chorff llywodraethol yr Ysgol er mwyn egluro'r rhesymau am yr angen i drafod dyfodol Ysgol Llanaelhaearn a'r drefn o gynnal trafodaethau lleol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ac yr Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	4 Mehefin 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	19 Mehefin 2019

---

### PWNC

Eitem 7:HYBU ANNIBYNIATH DRWY GYNYDDU CAPASITI, DATBLYGU GWASANAETHAU A NEWID DIWYLLIANT O FEWN DARPARIAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL

---

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd dyrannu £116,000 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer ariannu swydd Arweinydd Therapi Galwedigaethol fydd â chyfrifoldeb am arwain a datblygu'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ar draws yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant (cyfnod o 2 flynedd).

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r cynllun yn hybu annibyniaeth a gwasanaethau ataliol sydd yn un o brif egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ac yn cefnogi blaenoriaeth 6 Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – 'Sicrhau fod gennym wasanaethau Gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel maent yn ei ddymuno'.

Mae swyddogaeth Therapi Galwedigaethol yn allweddol i newid diwylliant a datblygu gwasanaethau ataliol sydd yn cyfrannu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy leihau'r angen am ofal cartref neu breswyl. Bydd cynllun yn galluogi'r adran i ddarparu cyngor a gywir ac amserol i unigolion ac yn cynyddu capasiti i gefnogi a chyfoethogi amcanion llesiant unigolion Gwynedd. Bydd hyn yn galluogi'r adran i sefydlu agwedd ataliol sydd yn canolbwyntio ar amcanion unigol.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

---

---

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	4 Mehefin 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	19 Mehefin 2019

---

### PWNC

Eitem 8: CAIS AM ADNODDAU UN TRO O'R GRONFA TRAWSFFURFIO I ARIANNU Y CYNLLUN GWASANAETHAU CEFNOGI DEMENTIA YN Y GYMUNED AM GYFNOD O FLWYDDYN

---

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd dyrannu £97,660 o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go), i ariannu 2 swydd llawn amser (ym Mhwllheli a Porthmadog) a dwy swydd 7awr yr wythnos wedi eu lleoli yn Nhywyn a Chaernarfon hyd at 31 Mawrth, 2020.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae ffrwd ariannu presennol y Cynllun uchod drwy'r Gronfa Gofal Integredig wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 a fabwysiadwyd ar yr 8fed o Fawrth eleni yn nodi bwriad yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant i gydweithio gyda chymunedau Gwynedd i hyrwyddo cymunedau cyfeillgar i ddementia ac i hyrwyddo gwydnwch cymunedol fydd yn adeiladu ar gryfderau'r cymunedau hynny i atal y galw am wasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r elfen Dementia Go, sydd yn rhaglen wreiddiol a ddatblygwyd yng Ngwynedd, wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol am fod yn flaengar a'r cyfraniad mae'n ei wneud i fywydau pobl a'u gofalwyr sy'n byw gyda dementia.

Er mwyn rhoi cyfle i werthuso'r cynllun yn fwy ffurfiol i'n galluogi i ystyried a ddylid ei gyllido drwy dorri gwasanaeth arall, mae angen parhau i gyllido'r cynllun am flwyddyn er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. Nia Jeffreys gan ei bod yn aelod o'r Pwyllgor Llywio Dementia Go. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddi adael y cyfarfod.

---

---

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---